

LLYWODRAETH CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 1)

Mae arolygydd Iechyd planhigion a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") wedi cadarnhau presenoldeb

Phytophthora pluvialis ar fangre yn siroedd **Gwynedd**.

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 17(1) o'r Rheoliadau, rhoddaf yr hysbysiad a ganlyn:

Enwi

1. Enw'r hysbysiad hwn yw Hysbysiad Iechyd Planhigion (***Phytophthora pluvialis*** (Cymru), a
2. Gan gael effaith o 15 Mawrth 2022 ymlaen, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 1) a wnaed ar 15 Mawrth 2022.

Ardal a ddarnodir

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd **Gwynedd** o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad 1, ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi ei darnodi.

Cyfyngu ar gwympto deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau heb hysbysiad ymlaen llaw

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) y Rheoliadau, mae'n rhaid i berson hysbysu'r Comisiwn Coedwigaeth ymlaen llaw yn ysgrifenedig ynghylch eu bwriad i gwympto unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn yr ardal a ddarnodir.

Gwahardd symud deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau

5. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o'r ardal a ddarnodir a bennir yn yr hysbysiad hwn, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan arolygydd Iechyd Planhigion.

Deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau

6. At ddibenion paragraffau 4 a 5 uchod, ystyr deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yw:

(a) y deunydd a ganlyn sydd wedi tarddu o fewn yr ardal a ddarnodir –

- i. unrhyw bren o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus**, ac eithrio ar ffurf deunydd pecynnu pren neu bacin;
 - ii. unrhyw risgl ynysedig o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus**;
 - iii. unrhyw goed o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus** gan gynnwys coed a gwmpwyd neu goed a syrthiodd, ffrwythau, hadau, dail neu ddeiliant.
- (b) unrhyw blanhigion ar gyfer plannu'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus** sydd wedi tarddu neu sy'n byw o fewn yr ardal a ddarnodir.

Cychwyn y gwaharddiad

7. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn gymwys ar **15 Mawrth 2022** ac ar ôl hynny hyd nes y rhoddir hysbysiad pellach.

Llofnodwyd



Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru
Llywodraeth Cymru, **14 Mawrth 2022**

ATODIAD 1

Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r ffin yn dechrau yn SH856149, Dinas Mawddwy ar yr A470. Mae'n dilyn yr A470 tua'r de am 700m i SH858141 ym Minllyn.

Yna mae'r ffin yn gwyro o'r A470 ac yn rhedeg ar hyd y ffordd ddiddosbarth sy'n mynd tua'r de i Aberangell am 4.5km. Mae afon Dyfi yn llifo yn gyfochrog i'r dwyrain o'r ffin. Yn SH845099 mae croesffordd a phont, ac mae'r ffin yn parhau i'r de ar y ffordd ddiddosbarth am 7.3km.

Yna mae'r ffordd ddiddosbarth yn cwrdd â'r B4404 yn SH809043. Mae'r ffin yn dilyn y B4404 i gyfeiriad y de-orllewin am 6.5km nes iddi gwrdd â'r A487 yn SH751023.

O SH751023 mae'n dilyn yr A487 tua'r gogledd tuag at Ddolgellau am 18.2km gan fynd heibio i Esgairgeiliog Ceinws, Corris, Corris Uchaf a Minffordd nes i'r A487 gwrdd â'r A470 yn SH766167.

Wrth y gyffordd mae'r ffin yn parhau tua'r dwyrain tuag at Ddinas Mawddwy ar yr A470 nes iddi gyrraedd Dinas Mawddwy yn SH856149.